

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 8fed o FAI 2017 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.40.(yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol)

Presennol: Ian Evans (yn y gadair), Alan Lewis, Heddwyn Jones, Margaret Rees, Tyssul Evans, Linda Williams, Geraint Rosser, Richard Thomas, Meic Bowen, Aled Williams, Geoff Hewitt, Tracey James a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Neb.

Materion Personol

1716 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd a ddymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Alan Lewis a oedd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 60 yn ddiweddar.

1717 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 05/04/2017 fel rhai cywir.

1718 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1681 - Rheilffordd Pontiets - Penderfynwyd cysylltu â Stuart Thomas ynglŷn â'r mater hwn.

Tud 1. Cofnod Rhif 1683 - Toiledau'r Meinciau – Bydd hysbyseb swydd y Gofalydd yn ymddangos yn ystod y dyddiau nesaf.

Tud 3. Cofnod 1703 - Cyflymder traffig ar Stad Ffoslas - Ceisiwn gyfarfod safle rhwng 12.00 a 12.15 yn y dydd.

Tud 3. Cofnod 1705 - Cysgodfa yn Llangyndeyrn - Gofyn am Gyfarfod Safle gyda Chwmni First Cymru.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1719 Gwendraeth Valley Charity - Penderfynwyd danfon cyfraniad o hyd at £100 neu dalu am logi'r Neuadd ym Meinciau ac yna danfon cyfraniad.(Cyfanswm o £100)

1720 Carway Football & Cricket Club – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1721 Clarke Telecom- Gorsaf Ffon Symudol ym Mhontantwn - Nodi'r llythyr ac aros am gais Cynllunio.

1722 Cyngor Sir Gar - Rhandal cyntaf o'r Presept am £16467.66 - Nodwyd y llythyr.

1723 Un Llais Cymru – Cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Ardal – Enwebwyd y Cynghorwyr Ian Evans a Linda Williams.

Ceisiadau Cynllunio

1724 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/35392 - Mr a Mrs Jones – 122A, Heol y Meinciau, Pontiets– Estyniad - Dim Gwrthwynebiad .

- b) Cais Rhif W/35400 - WRW Construction Ltd - Tir nes at Dafarn y Ceffyl Du, Meinciau - Dileu Amod Rhif 4 - Angen mwy o wybodaeth
- c) Cais Rhif W/35413 – Mr David Johnson – Cwm y Fantais, Pontantwn - Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1725 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ebrill 2017. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

- 1726** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a) Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Ebrill)
 - b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ebrill)
 - c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £100.00 (Mis Ebrill)
 - ch) HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Ebrill)
 - d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ebrill)
 - dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Ebrill)
 - e) Taflenni'r Cyngor - £45.00
 - f) Trydan y Toiledau'r Meinciau - £55.22
 - ff) Stampiau - £26.64
 - g) Inc i'r Llungopïwr - £41.98
 - ng) Bocs i'r Defribilator - £485.85 (£300 wedi ei derbyn o Gôr Merched Glannau'r Gwendraeth)
 - h) Roger Thomas – Cyfrifydd - £150.00

Asesiad Risg Cyllidol

1727 Wedi trafodaeth lwyr a chlir, cynigwyd gan Aled Williams ac eiliwyd gan Alan Lewis ein bod yn derbyn Adroddiad Asesiad Risg Cyllidol am y flwyddyn 2016/2017.

Llofnodi Sieciau

1728 Gan bod tymor y Cyn Gynghorydd Ellis Jenkins wedi dod i ben penodwyd y Cynghorydd Ian Evans i fod yn un i llofnodi sieciau yn ei le.

Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 1)

1729 Cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Tyssul Evans ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 1) am y flwyddyn 2016-2017.

Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 2)

1730 Cynigwyd gan Geoff Hewitt ac eiliwyd gan Geraint Rosser ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 2) am y flwyddyn 2016-2017.

Cyfrifon y Cyngor a Datganiadau Cyfrifyddu 2016-2017

1731 Wedi darllen llythyr oddiwrth Cyfrifydd y Cyngor, Mr Roger Thomas, cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Geoff Hewitt ein bod yn derbyn y Cyfrifon am y flwyddyn 2016-2017 fel y cyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith yn y mater hwn.

Meddygfa'r Sarn, Pontiets

1732 Mynegwyd pryder gan Aelodau'r Cyngor ynglŷn â sefyllfa Meddygfa'r Sarn ym Mhontiets. Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach gyda'r Bwrdd Iechyd neu'r Feddygfa ynglŷn â'r mater hwn.

Materion Cyngorwyr

1733 **Alan** - a) Gofyn am ganiatâd am arwyddion ffyrdd - Plant yn Chwarae - ger Hafod Hedd £26.00

b) Gofyn am trashio yn gyffredinol trwy'r Plwyf.

1734 **Richard** - Diolch am gefnogaeth yr Heddlu gydag arafu traffig trwy Bontantwn

1735 **Heddwyn** - Cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â phroblem cyflymder traffig trwy Bedair Heol.

1736 **Ian** - Angen Scalps yng Nghwm Lewis

**Cyfarfod nesaf:- 5ed o Fehefin 2017 yn Ystafell y Band, Crwbin am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....